| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 29 Tachwedd 2016 |
| **TEITL** | Cyllido Ysgol Ddilynol |
| **PWRPAS** | Cadarnhau methodoleg cyllido Ysgol Ddilynol |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad |
| **AWDUR** | Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

**1. Cefndir**
O'r 1af Medi 2017 bydd gan Gyngor Gwynedd Ysgol Ddilynol felly mae angen amlinellu a chadarnhau methodoleg cyllido ar gyfer y math hynny o Ysgol.

**1.1** Mae'r gofyn i ddatganoli cyfrifoldeb a chyllid i gyrff llywodraethol ysgolion yn ei le ers 1988 (Rheolaeth Leol Ysgolion), gyda'r 'Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010' y rhai cyfredol.

**1.2** Mae'r rheoliadau yn ymdrin â holl agweddau cyllido ysgolion, gan gynnwys rheoliadau ar gyfer y cyllid gall Adran Addysg ei ddal yn ganolog e.e. cludiant disgyblion i ysgol, a sut mae rhaid i gyllid gael ei ddatganoli i ysgolion, e.e. esiampl dda o hyn yw rheol *'Rhan 3 - Cyfrannau ysgolion o'r gyllideb : Adran 23'* sydd yn sylfaenol yn gofyn i Awdurdod Lleol sicrhau bod fformiwla dyrannu ysgolion cynradd ac uwchradd yn darparu o leiaf 70% o'r cyllid a ddatganolir ar sail nifer disgyblion.

**1.3** Mae gan Gyngor Gwynedd fformiwla cyllido benodol ar gyfer pob un o'r 3 sector ysgol gyfredol sef Cynradd, Uwchradd ac Arbennig (gweler yr atodiadau sy'n cynnwys manylion ac eglurhad fformiwla dyrannu Ysgolion Cynradd ac Uwchradd)

**2. Methodoleg**
**2.1** Mewnbynnu ystadegau addysg Gynradd ar gyfer pob safle'r Ysgol Ddilynol a'u redeg yn unigol trwy'r Fformiwla Cyllido Ysgolion Cynradd.
**2.2** Mewnbynnu ystadegau addysg Uwchradd ar gyfer pob safle'r Ysgol Ddilynol a'u redeg yn unigol trwy'r Fformiwla Cyllido Ysgolion Uwchradd.
**2.3** Cyfanswm y symiau wedi'i gyfrifo ar gyfer pob safle dan ran 2.1 a 2.2 fydd cyfanswm dyraniad cyllido'r Ysgol Ddilynol.

**3. Egwyddorion**

**3.1 Cyfartaledd Cyflog**

Mae'r fformiwla cyllido Ysgolion Cynradd ac Ysgolion Uwchradd yn cyfeirio at 'Cyfartaledd Cyflog' oddi fewn y pennawd athrawon, er hynny mae'r cyfrifiad o'r cyfartaledd cyflog yn wahanol, sef -

- <u>Cynradd</u> - cyfrifir cyfartaledd cyflog ar gyfer pob Ysgol Gynradd unigol, yn seiliedig ar wir gost y staff dysgu addysg gynradd yn yr ysgol, gan sicrhau y cynhwysir 1 Pennaeth ar gyfer pob ysgol, ynghyd ag 1 Dirprwy ar gyfer pob ysgol gyda mwy na 75 disgybl.
- <u>Uwchradd</u> - selir cyfartaledd cyflog Ysgol Uwchradd ar gyfanswm wir gost staff dysgu oddi fewn holl Ysgolion Uwchradd (gan gynnwys staff dysgu addysg uwchradd Ysgolion Dilynol), gan sicrhau y cynhwysir 1 Pennaeth a 2 Ddirprwy ar gyfer pob ysgol.

Bydd cyfartaledd cyflog Ysgol Ddilynol yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn -

- <u>Addysg Gynradd</u>
  Safle 1- gwir gost athrawon addysg gynradd gan gynnwys 1 Pennaeth ac 1 Dirprwy (graddfa yn seiliedig ar gyfanswm nifer disgyblion cynradd yr ysgol ddilynol gyfan).
  Safleoedd Eraill – gwir gost athrawon addysg gynradd gan gynnwys 1 Rheolwr Safle.
- <u>Addysg Uwchradd</u>
  Defnyddir cyfartaledd cyflog Ysgolion Uwchradd y Sir.

**3.2 Gwarchodaeth Lleiafswm Nifer Athrawon**

Mae'r dyraniad ychwanegol gwarchodaeth lleiafswm nifer athrawon presennol oddi fewn y fformiwla ariannu Cynradd ac Uwchradd yn parhau ar gyfer pob safle unigol oddi fewn Ysgol Ddilynol.

**3.3 Arwynebedd Adeilad a Thir**

Ble darperir addysg gynradd ac addysg uwchradd yn llwyr <u>ar un safle unigol Ysgol Ddilynol</u>, i bwrpas fformiwla ariannu mi fydd Arwynebedd Adeilad, Arwynebedd Glanhau a'r gofyn Cynnal Tir yn seiliedig ar ddosraniad rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd.